

Cymdeithas Gwasanaethau

Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

3. Gweithio gydag eraill

3.1 Adeiladu consensws



Pam?

Ar hyn o bryd mae yna ddiddordeb cyfochrog gan y sector gwirfoddol a'r llywodraeth i gyflogi dinasyddion i gryfhau democratiaeth leol, ac annog cymryd rhan gymunedol wrth wneud penderfyniadau.

Mae datblygiad cynhaliol yng Nghymru yn ein gorfodi i ystyried materion, yn hir dymor a byrdymor, megis ansawdd bwyd, treuliant a gwastraff, llygredd, cyfiawnder cymdeithasol, gyflogaeth, iechyd, trosedd, bywyd gwyllt a natur, 'mynediad i bawb', diwylliant, gwybodaeth, arwahaniaeth lleol a democratiaeth leol.

Mae egwyddorion cymryd rhan gymunedol felly yn ymwneud a rhoi grym - cynnig pŵer i bobl a chryfhau democratiaeth lleol. Ond gan mai dim ond 'pŵer' cyfyngedig sydd ar gael, mae hyn yn golygu fod rhaid i'r pŵerus presennol golli peth rheolaeth - os yn fusnes neu'n wleidyddiaeth.

Wrth reswm fe fydd gwrthwynebiad, yn arbennig mewn ardaloedd ble mae grwpiau politicaidd neu gymdeithasol arbennig yn bŵerus ers amser maith. Ond os allwn symud ymlaen tuag at systemau mwy cyfranogol, rhaid cyflawni'r aildrefnu pŵer yma. Yng Nghymru ar hyn o bryd, gellir defnyddio dull consensws mewn unrhyw un o'r ffyrdd yma: polisi trafndiaeth,

cynlluniau gweithredu ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd; strategaethau trosedd a diogelwch, ymofynwyr noddfa, cymuned; newid yn yr hinsawdd, milltiroedd bwyd; ffermydd gwynt

Sut?

Mae ein ffordd draddodiadol wrthwynebus o edrych ar wneud penderfyniadau politicaidd yn eithrio yn hytrach na chynnwys; mae'n annog gwrthdaro a drwgdybiaeth; yn aml yn gosod datrysiadau; i'w weld yn aml yn elyniaethus ac yn methu cwrdd â disgwyliadau pobl o gyfranogi democrataidd. Gwelir dulliau adweithiol statudol megis y system ymchwiliad cyhoeddus yn annigonol i gyflawni disgwyliadau democrataidd.

Mae strategaethau newydd mwy cyfranogol megis *Gwneud y Cysylltiadau* y Cynulliad Cenedlaethol yn awgrymu ffordd newydd o weithio i aelodau etholedig y cyngor a dinasyddion. Mae grwpiau'r ford gron, rheithgorau dinasyddion a grwpiau trafod yn ffyrdd i ddod a dinasyddion a'u cynrychiolwyr at ei gilydd.

Cyfarfodydd, seminarau, cynadleddau ac ati

Mae'r uchod yn nodweddion anochel o fywyd cymdeithasol democrataidd. Maen nhw'r un mor bwysig ar gyfer y byd masnachol ag y maent ar gyfer byd gwleidyddiaeth leol, mudiadau'r trydydd sector a grwpiau cymunedol.

Mae strwythur y cyfarfod yn hanfodol ar gyfer eu llwyddiant. Dyma ble mae adeiladu consensws yn chwarae rôl hanfodol. Cymerir fel enghraifft cyfarfod grŵp o bobl wahanol gyda diddordebau annhebyg, neu amcanion tebyg ond gyda dulliau cyrhaeddiad gwahanol.

Rheolau sylfaenol

Mae sefydlu rheolau sylfaenol y grŵp ynghylch arddull neu bwyslais y cyfarfod ar ddechrau'r drafodaeth yn bwysig - defnydd jargon er enghraifft. Gellir canolbwyntio ar y presennol, ond rhaid cofio gwerthuso'r gorffennol hefyd. Yn bendant, dylai fod cyfraniadau byr, cynnwys pawb sy'n bresennol, ac yn y pen draw gwneud penderfyniadau consensws.

Graddfa amser

Mae adeiladu consensws yn broses a ddefnyddir i gynllunio os ddylai rhywbeth fynd yn ei flaen a sut i wneud hynny. Mae'n broses i gael cytundeb ar y penderfyniadau, ac yn ddull defnyddiol o drafod cyfarfodydd pan fod posibilrwydd gwrthdaro. Gellir hefyd ei ddefnyddio wrth sefydlu perchnogaeth syniadau a chanlyniadau trafodaeth neu brosiect. Mae hyd y broses consensws yn dibynnu ar gymhlethdod y materion. Gall cytundeb felly gymryd mater o oriau neu wythnosau. Unwaith y deuir i

gytundeb, bydd y penderfyniad llawer mwy parhaol a boddhaol na phenderfyniad heb gonsensws.

Rôl yr hwylusydd

Yn aml defnyddir hwylusydd / canolwr annibynnol i reoli proses yr adeiladu consensws. Yr hwylusydd sy'n gyfrifol am ddylunio'r broses a sicrhau democratiaeth y cyfle i gyfrannu at y ddadl. Rhaid i'r hwyluswyd helpu 'r cyfranogwyr i wrando'n ofalus ar ei gilydd, helpu pobl i eglurhau a datgan eu barn neu hyd yn oed dderbyn cyfrifoldeb.

Y gwithiad cyffredinol yw gwahanu ffeithiau oddi wrth deimladau, felly'n llwyddo i wasgaru teimladau a chynnal ffocws cadarnhaol. Mae'r hwylusydd yn helpu pob ochr i flaenoriaethu a dod o hyd i ddatrysiadau creadigol a derbyniol gan bawb. Ni ddylai hwyluswyr gael barn gref ar y mater dan sylw - a bod ynghylch strwythur nid cynnwys. Er bod y broses consensws yn aml yn meddwl fod yna gyfrifoldeb rhannol ar gyfer ei weithrediad, ni ddylid ystyried y canlyniad fel cyfaddawd. Yn hytrach, bydd yn un ble gall pob budd-ddeiliad fod ar ei ennill.

Dulliau

Mae yna nifer o ddulliau a ddefnyddir i gyrraedd consensws. Mae'r rhain yn cynnwys Technoleg Man Agored, 'Future Search', trafodaethau ford gron a gweledigaethu. Allwedd y llwyddiant yw cynllunio digwyddiadau a'r ethos trosglwyddo.

Gwybodaeth bellach

Participation Cymru
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk

Community Development Cymru
www.cdc.cymru.org

Interact Networks
www.interactnetworks.co.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig 1063289

Ffôn: 01437 769422 info@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 05/07/2007



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk